# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth 9 Rhagfyr 2025** |
| **AMSER** | **Cychwyn am 7y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH** |
| **CADEIRYDD** | **William Jones (Is Gadeirydd) yn absenoldeb y Cadeirydd (OR)** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso:**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Williams Jones (Is Gadeirydd CC Pistyll) |
| **2.** | **Presennol:**<br>Gethin Jones (GJ), Sianelen Pleming (SP), Griffith Jones (GJLJ), Emlyn Williams (EW), Osian Williams (OW), Cynghorydd Jina Gwyrfai (JG)<br><br>**Ymddiheuriadau gan:**<br>Olwen Roberts (OR), Derek Thomas (DT), Lois Fychan (LF)<br><br>**Heb datgan ymddiheuriadau o flaen llaw at y cyfarfod:**<br>Ynyr Elis (YE)<br><br>***Canllaw Un Lais Cymru 'Y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb' - os yr aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis'.*** |
| **3.** | **Datgan diddordeb:** Neb |
| **4.** | **Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion o cyfarfod diwethaf – Tachwedd 2025:** OW eu bod yn gywir ac eiliodd EW. |
| **5.** | **Materion yn codi:**<br>A) Rhoi rhyngrwyd yn y Ganolfan<br>**Penderfyniad:** SP – Nid oes digon o alw am Wi-Fi gan y clybiau sy'n defnyddio'r Ganolfan. Byddai'n tynnu sylw'r bobl ifanc yn yr Urdd, a byddai contract dwy flynedd yn ddrud ac yn cael ei ddefnyddio'n anaml. Penderfyniad CCP yw cynnal cyfarfodydd yma, ac mae rhyngrwyd ar gael yn y Capel.<br>GJLJ - Awgrymu holi Canolfannau Cymunedol eraill fel Y Ffor a Penygroes<br>GJ – Byddai'r rhyngrwyd yn ddefnyddiol i'r clerc ar gyfer rhannu gwybodaeth a cheisiadau cynllunio.<br>B) Nodwyd fod nifer o Gynghorau Cymuned eraill eisoes â thudalen agored Facebook.<br>**Penderfyniad:** GJ sydd yn gyfrifol hefo aelodau eraill yn gweinyddu, nid yw'r tudalen wedi diweddaru. Aelodau i cytuno beth i rhoi arno fel llun y fainc newydd yn Pistyll / Llithfaen, Coed Nadolig ayyb<br>C) Bocs Pethau'r cyn Glerc.<br>**Penderfyniad:** Trefnu aelodau i gyfarfod i fynd drwy'r bocs cyn cyfarfod mis Chwefror.<br>D) Fainc Pistyll / Llithfaen<br>**Diweddariad:** Clerc i archebu dau fainc priodol ar wefan cwmni Glasdon ac disgwyl dyddiad danfon. GJLJ i fesur faint yr plith concret sydd wedi dirywo o dan yr hen faint ac i cael tri pris am y gwaith gan arbenigwyr lleol.<br>E) Gordyfiant wrth 'Raber and Glanaber<br>**Diweddariad:** Gwaith wedi ei wneud ac bydd yr prifit yn cael ei dorri lawr bob blwyddyn i uchder diogel.<br>F) Enwau newydd i arwyddo Sieciau CC Pistyll / System Bancio newydd.<br>**Diweddariad:** GJLJ wedi mynd ac ID i HSBC. GJ – i e-bost Cyngor Gwynedd am bancio ar y we.<br>G) Lon Groes<br>**Diweddariad:** JG- gan fod enw swyddogol/ffurfiol ar y lôn yn barod (sef 'Lôn Bwlch Gwynt Road' mae Priffyrdd CG yn bryderus y byddai cael arwydd newydd yn gallu achosi dryswch. Does dim diweddariad i hyn ond mae angen I'r Clerc ysgrifennu i Cyngor Gwynedd eto<br>H) Adeiladu stad newydd o Tai Teg, Trefor<br>**Diweddariad:** JG- yn gofyn i unigolion ymateb I'r penderfyniad cynllunio hyn. |
| **6.** | **Gwefan CC Pistyll:**<br>GJ – i diweddaru hefo cofnodion cyfarfodydd Hydref 2025 ymlaen |
| **7.** | **Diweddariad Cyllidol gan y Cadeirydd (OR)**<br>Cyfrifon Banc Cyngor Cymuned Pistyll: Cyfrif Elusennol: £17,267.40 a Cyfrif Cadw: £2,792.90<br>Sylw gan OR (Cadeirydd): Bob dim wedi'i ddiweddaru ac yn gyfredol. Dyma datgan banc olaf am 2025.<br><br>**Diweddariad Asedau:**<br>• Ddifibrilwyr (2) – Un wedi'i leoli yn Llithfaen ac un yn Pistyll. CC Pistyll wedi ad-dalu cost y ddau fatri pad newydd.<br>• Gysodfannau Bws (2)<br>• Mainc (2) Wedi'u lleoli yn Pistyll ac yn Llithfaen.<br>• Maes Parcio – Ben Nant |

| | |
|---|---|
| | • Biniau Baw Ci (4) - 1 ym Mhistyll ac 3 yn Llithfaen. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y bin sydd wedi'i leoli yn Nant.<br>• Tir Comin – Hanner y mynydd.<br>• Y Ganolfan – Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **8.** | **Pwyllgor y Ganolfan**<br>Mae Cyngor Cymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **9.** | **Unrhyw Fater Arall / Materion lleol:**<br>**EW** – Dŵr budr yn codi ar y ffordd ger y Siop ers y tywydd sych.<br>**Penderfyniad:** Clerc wedi i anfon e-bost at Dŵr Cymru i roi gwybod am y broblem. Dwr Cymru wedi bod 09/11/2025 ac eto yn ddiweddar ar ol darganfod eu bod wedi agor yr lleoliad anghywir.<br><br>OR – Gwteri ar Lon Plas, Lon Nant ac lon drwy pentref hefo gwteri angen glanhau gan Cyngor Gwynedd<br>**Penderfyniad:** Clerc wedi cysylltu ag Cyngor Gwynedd – ateb yn ôl ei fod ddim yn mater brys ond ar y rhestr gwaith. Hefyd bod y lon drwy'r pentref am cael ei ail wynebu yn ystod 2026.<br><br>OR – Maes parcio y Ganolfan yn cael ei adnewyddu hefo lleoliadau parcio<br>**Penderfyniad:** Cyfraniad gan CCP ond gwaith heb dechrau eto.<br><br>SP – Cyfarfod Pwyllgor Pentref<br>**Penderfyniad**: nifer bach iawn daeth I'r cyfarfod diwethaf.<br><br>SP – Coeden Nadolig Pentref Llithfaen.<br>**Penderfyniad:** defnyddio arian sydd yn y bocs cyfraniadau yn y siop i dalu am coeden Nadolig. Mae'r peiriant Di-ffib eisoes wedi talu amdan, ond mae yna dal bocs cyfraniad yn y Siop, cytuno I'r cyfraniadau y bocs i fynd tuag at coeden Nadolig i Llithfaen. Clerc gofyn am llun i rhoi ar tudalen Facebook<br><br>OW – Coeden Nadolig Pistyll<br>**Penderfyniad:** CCP cytuno i talu am coeden Nadolig ac goleuadau (batri). GJLJ yn cynnig rhoi stad metel i ddal y coeden. Clerc yn gofyn am llun i rhoi ar tudalen Facebook.<br><br>GJ – Wall Eglwys Pistyll<br>**Penderfyniad:** I cael gwaith wedi wneud gan pobl medrus o hyn ymlaen ac dim yr pris isaf fel mae polisi y Cyngor. Wall yn saff ond ddim hefo y gwedd gorau. Gwers I'r dyfodol.<br><br>JG – llythyr gan perchennog maes gwersylla "Tyn on the Rhos" ynglŷn ac cefnogaeth i ail agor llwybrau cyhoeddus i Nant ac Tafarn y Fic er mwyn i'w cwsmeriaid ddim gorfod cerdded ar y lon I'r pentref.<br>**Penderfyniad:** Clerc i anfon llythyr i Dewi Wyn Owen (CG) i gofyn be ydi sefyllfa llwybrau cyhoeddus yn Llithfaen ac pa llwybrau sydd yn dod o dan categori 1, 2, 3 neu 4, hefyd oes yna llwybrau yma yn Pistyll?<br><br>GJ – Cyfeiriad e-bost CCPistyll<br>**Penderfyniad:** angen gweithdy byr i ddangos i pawb ar sut i mynychu a defnyddio yr e-bost drwy rhoi ar eu cyfrifiadur neu ffon symudol. |
| **10.** | **Cyfarfod Nesaf:**<br>Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth, 13 Ionawr 2026, am 7.00yh yn y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH.<br>***Os ni fyd aelodau yn gallu mynychu angen gadael I'r Clerc neu aelod arall wybod i gallu rhoi ymddiheuriadau o flaen llaw.*** |